# Cartref Clyd:

# Nythod Gwiwerod

**Mae gwiwerod coch yn adeiladu eu nythod yn uchel yn y coed. Mae'r gweithgaredd hwn yn annog dysgwyr i actio rôl Skyra a chasglu deunyddiau naturiol fel brigau, mwsogl, dail a ffwr i greu eu cartrefi.**

**Amcan Dysgu:** Archwilio pam mae gwiwer angen adeiladu cartref a'r hyn sydd ei angen i'w greu a chydweithio i greu nyth gwiwer.

**Dibenion y Cwricwlwm**: Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r Byd.

**MDaPh**: Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Dyniaethau

**Adnoddau**:

- Deunyddiau naturiol - brigau, ffyn, dail, ffwr, mwsogl
- Tegan meddal wiwer
- Lluniau/esiamplau o nythod wiwerod
- Mynediad at ardal allanol neu ddefnyddio'r



## Gweithgaredd

**1**

**Trafodwch pam fod gwiwerod yn adeiladu nythod** er mwyn creu lle diogel iddyn nhw a'u babanod, gan eu cysgodi rhag y tywydd a'u gwarchod rhag ysglyfaethwyr. Archwiliwch le byddan nhw'n adeiladu nyth a pha ddeunyddiau y byddan nhw'n eu defnyddio - canghennau a brigau am strwythur a dail, mwsogl a ffwr am wres a chysur.

**2**

**Anogwch y dysgwyr i actio rôl Skyra.**

Gwyliwch y ffilmau byr am wiwer goch yma a yma a siaradwch am sut maen nhw'n symud o gwmpas; meddyliwch am eu pawennau, eu trwynau, eu clustiau blewog a sut maen nhw'n teithio o gwmpas.

Gofynnwch i'ch dysgwyr esgus bod yn wiwer.

Gallwch chi a'ch dosbarth benderfynu os hoffech chi adeiladu nyth wiwer goch fel dosbarth neu mewn parau.



# Cartref Clyd:

## Nythod Gwiwerod

### 3

**Gofynnwch i'r dysgwyr ddod o hyd i le diogel i adeiladu'r nyth,** yna gofynnwch iddyn nhw gasglu cymaint o ddeunyddiau naturiol â phosibl. Anogwch Wiwerod Skyra i gadw llygad am ysglyfaethwyr yn cuddio a chwilio wrth iddyn nhw gasglu'r deunyddiau gwahanol.

### 4

**Didolwch y deunyddiau** yn ddeunyddiau adeiladu nyth a deunyddiau insiwleiddio a leinio nyth. Gallwch chi drafod sut mae'r deunyddiau hyn yn teimlo a beth fyddai'r defnydd gorau ohonynt.

**Ymestyn**

**Cyfrwch a didolwch y ffyn i feintiau a siapiau gwahanol cyn dechrau adeiladu'r nyth.**

This material is…— Mae'r deunydd hwn yn ...

| | |
|---|---|
| Soft—Meddal | Cold—Oer |
| Hard—Caled | Warm—Cynnes |
| Scratchy—Crafu | Strong—Cryf |
| Smooth — Llyfn | Weak—Gwan |
| Rough—Garw | |



## Mae'n amser dechrau adeiladu'r nyth!

### 5

Anogwch y dysgwyr i adeiladu'r strwythur cryf allanol yn gyntaf, gan weu'r brigau rhwng y canghennau mwy. Yna, defnyddiwch y deunyddiau meddal, cyffyrddus i leinio'r nyth.

### 6

Os yw'r dysgwyr wedi creu nythod bach ac mae gennych degan meddal gwiwer, gallwch chi ei gosod yn y nyth. Os yw nyth mawr wedi'i greu, gall pawb eistedd ynddo. Trafodwch pa mor **ddiogel** a **chyffyrddus** rydych chi /Skyla'n teimlo.

**Ymestyn**

**Ydy Skyra yn gallu dod o hyd i ffrindiau ar diroedd yr ysgol? Chwiliwch am gartrefi / cynefinoedd anifeiliaid eraill.**

**Adeiladwch gynefinoedd anifeiliaid eraill – blychau nythod, cartrefi draenogod, cynefinoedd trychfilod bach.**